Mae dadansoddiad o'r cymhellion ar gyfer cydweithio o'i gymharu â'r manteision a nodwyd o weithgarwch cydweithio yn tueddu i ddangos bod nodau gwreiddiol/manteision disgwylidig cydweithio wedi'u gwireddu yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, roedd dwy ran o dair o'r elusennau hynny a ddywedodd mai gwella effeithlonrwydd oedd un o'r cymhellion ar gyfer eu gweithgarwch cydweithio wedi nodi llai o gostau neu arbedion cost fel un o ganlyniadau'r gweithgarwch. Mae'r tabl isod yn dangos rhagor o enghreifftiau o nodau wedi'u gwireddu.

Cymhelliad i gydweithio	...o'r rheiny, % yn nodi budd cysylltiedig
Cael mynediad at sgiliau nad ydynt ar gael yn eu sefydliad	71% wedi cael mynediad at sgiliau, arbenigedd neu wybodaeth newydd
Gwella effeithlonrwydd	66% wedi nodi bod llai o gostau/arbedion costau ganddynt
Gwella gwasanaethau/llleihau dyblygu	64% wedi nodi gwell wasanaethau/gwasanaethau wedi'u cynnal
Angen cynnal ffrydiau incwm	63% wedi nodi gwell wasanaethau/gwasanaethau wedi'u cynnal
Bodloni gofynion cyrff cyllido	60% wedi cynyddu mynediad at gyfleoedd cyllido
Diffyg cyllid i ddarparu gwasanaethau ar eu pennau eu hunain	60% wedi nodi gwell wasanaethau/gwasanaethau wedi'u cynnal


6.0 Rhwystrau i gydweithio a'r anawsterau a gafwyd yn ystod cydweithio

- Dywedodd yr elusennau oedd heb gydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mai'r rheswm pennaf am hynny oedd nid oedd angen iddynt wneud hynny neu ni chawsant eu hargyhoeddi o'r manteision (46%), nid oedd unrhyw bartneriaid elusen priodol (34%) neu nid oedd unrhyw elusen arall wedi cysylltu â nhw i gydweithio (30%).
- Roedd un rhan o dair (33%) o'r elusennau oedd wedi cydweithio wedi cael anawsterau gyda'u trefniadau cydweithio.
- Yr anawsterau a nodwyd yn fwyaf aml oedd diffyg cyllid, adnoddau neu arbenigedd (16%) a gwahaniaeth mewn personoliaethau neu ddiwylliannau gweithio (16%).
- Y math o weithgarwch cydweithio lle y cafwyd yr anawsterau mwyaf aml oedd gwneud cais ar y cyd am gontractau (roedd 68% o'r elusennau a gafodd anawsterau gyda gweithgarwch cydweithio yn ymwneud â gwneud cais ar y cyd am gontractau).
- Dywedodd y mwyafrif o'r rhai oedd yn cael anawsterau (75%) eu bod wedi cymryd camau i ddatrys yr anawsterau hyn.

6.1 Rhwystrau a brofwyd gan elusennau sydd heb gydweithio

Gofynnwyd i'r elusennau hynny a ddywedodd nad oeddent wedi ymwneud â gweithgarwch cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i esbonio eu rhesymau dros hyn. Dangosir y casgliadau yn Siart 7.

Siart 7: Rhesymau dros beidio â chydweithio



(Sail = Elusennau oedd heb gydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf: Heb ei bwysoli: 1,332, Wedi'i bwysoli: 1,360. DS: gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r holl resymau sy'n gymwys).

Dyweddod elusennau oedd heb gydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mai'r rheswm pennaf am hynny oedd naill ai eu bod yn teimlo nad oedd angen iddynt wneud hynny neu oherwydd nid oeddent wedi'u hargyhoeddi o'r manteision (46%). Fel arall, roedd eu rhesymau yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau neu weithredoedd elusennau eraill, gyda thua un rhan o dair naill ai'n nodi nad oedd unrhyw bartneriaid elusen priodol ganddynt (34%), neu nid oedd elusen arall wedi cysylltu â nhw (30%). Roedd yr elusennau mwyaf (gydag incwm yn yr ystod £100-250k) yn fwyaf tebygol o ddweud nad oedd unrhyw bartneriaid elusen priodol (49% o'i gymharu â llai na 38% o elusennau eraill).

Roedd 21% o'r elusennau oedd heb gydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf 'byth wedi ystyried cydweithio', a themlai 13% fod diffyg gwybodaeth, amser neu adnoddau ganddynt i ymgymryd â gweithgarwch cydweithio.

Yn ystod yr ymgynghoriad ansoddol, roedd y rhai a gafodd eu cyfweid wedi tynnu sylw at nifer o rwystrau o ran agwedd at gydweithio - rhwystrau a gafodd eu harsylwi gan yr arbenigwyr sector neu a brofwyd yn uniongyrchol gan yr elusennau a gafodd eu cyfweid. Mae'r rhwystrau hyn o ran agwedd yn adlewyrchu amrywiaeth o ofnau a chanfyddiadau gan elusennau. Er enghraifft:

- Gallai unigolion sy'n rhedeg sefydliad llai deimlo y gallai cydweithio arwain at gollu ei sefyllfa arbennig yn y gymuned.
- Gallai rhai ymddiriedolwyr a Phrif Swyddogion Gweithredol bryderu y gallai eu helusen gollu ei hunaniaeth a'i hannibyniaeth, ac y gallai cydweithredu wanhau ei nodau a'i dibenion.
- Efallai fod rhai elusennau yn ofni y gallai cydweithio arwain at gystadleuwyr yn dwyn eu syniadau. Mae hon yn broblem arbennig pan fydd yr elusennau lleiaf yn cystadlu am yr un adnoddau.
- Cred rhai elusennau mai 'ein ffordd ni yw'r ffordd orau' ac mae cysylltiad cryf ganddynt â hanes eu helusen, yn aml er gwaethaf amgylchiadau sy'n newid.
- Gall elusennau ganolbwyntio ar eu buddiannau sefydliadol cul eu hunain yn hytrach na'u cenhadaeth ac anghenion buddiolwyr.


Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ansoddol o'r farn y gallai'r ofnau a'r canfyddiadau hyn waethygu weithiau gan wrthdaro personoliaeth, agendâu personol a diwylliannau ac arferion gweithio plwyfol. Yn wir, roedd consensws cyffredinol y gall problemau sy'n gysylltiedig â materion personol a diwylliannol fod yn arwyddocaol iawn yn y trafodaethau ar gydweithio. Teimlai'r rhai a gafodd eu cyfweid bod hyn yn arbennig o wir ymysg Prif Swyddogion Gweithredol, ymddiriedolwyr neu sylfaenwyr, ond gallai fod yn broblem hefyd ymysg buddiolwyr a staff gweithredol.

Fodd bynnag, nid oedd casgliadau'r arolwg eu hunain yn cadarnhau'n uniongyrchol arwyddocâd yr ofnau a'r canfyddiadau hyn fel rhesymau dros beidio â chydweithio. Er enghraifft, dim ond 3% o'r elusennau oedd heb gydweithio yn ystod y tair blynedd diwethaf a ddywedodd mai diffyg cefnogaeth o'r tu mewn i'r sefydliad oedd y rheswm am hynny, a dim ond 2% dywedodd mai risgiau canfyddedig i'r elusen oedd y rheswm. Eto i gyd ni ellir diystyru'r ffaith yn llwyr y gallai rhai o'r ofnau a'r canfyddiadau hyn fod yn sail i'r rheswm sy'n cael ei nodi'n fwyaf aml dros beidio â chydweithio - h.y. bod elusennau'n teimlo 'nad os unrhyw angen cydweithio' neu eu bod 'heb eu hargyhoeddi o'r manteision' (46%).

6.2 Rhesymau dros beidio â chydweithio - er gwaethaf ei ystyried o ddifrif

Gofynnwyd i bob elusen, os oeddent wedi ymgymryd â gweithgarwch cydweithio arall neu beidio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a oeddent wedi ystyried neu archwilio'n fanwl unrhyw fath o gydweithio yn ystod y cyfnod hwn a oedd, am ba bynnag rheswm, heb fynd rhagddo. Dywedodd 6% eu bod nhw wedi profi'r sefyllfa hon. Mae'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r mentrau cydweithio hyn wedi'u nodi yn Siart 8 isod.

Siart 8: Rhesymau dros beidio ag ymgymryd â gweithgarwch cydweithio




(Sail: Pob un oedd wedi ystyried cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ond oedd heb gydweithio: Heb ei bwysoli 166, Wedi'i bwysoli 152)

Y prif resymau dros beidio â bwrw ymlaen â rhyw fath o weithgarwch cydweithio er gwaethaf ei ystyried o ddifrif oedd diffyg adnoddau megis amser, cyllid neu arbenigedd (39%) ac anawsterau o ran arweinyddiaeth, cynllunio neu gyfathrebu (31%).

6.3 Anawsterau a gafwyd wrth gydweithio

Gofynnwyd i elusennau sy'n cydweithio a oeddent wedi cael unrhyw anawsterau wrth gydweithio ac, os oeddent, i nodi'r prif anhawster a gafwyd. At ei gilydd, dim ond un rhan o dair (33%) dywedodd eu bod nhw wedi cael anawsterau, gyda dros hanner (54%) yn dweud na chawsant unrhyw anawsterau. Nodir y gwahanol anawsterau a gafwyd yn Siart 9.

Siart 9: Anawsterau a gafwyd gan elusennau wrth gydweithio



(Sail: Pob elusen oedd wedi cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf: Heb ei bwysoli 1,162, Wedi'i bwysoli 1,134)

Dengys y casgliadau bod yr anawsterau mwyaf cyffredin yn ymwneud a:

- diffyg adnoddau megis amser, cyllid neu arbenigedd (16%);
- gwahaniaeth mewn personoliaethau neu ddiwylliant gweithio (16%); ac
- anawsterau o ran arweinyddiaeth, cynllunio neu gyfathrebu (11%).

Pan ofynnwyd iddynt nodi'r anhawster mwyaf arwyddocaol a gafwyd, nododd y gyfran fwyaf o elusennau ddiffyg adnoddau megis amser, cyllid neu arbenigedd (10%), wedi'i ddilyn gan wahaniaeth mewn personoliaethau neu ddiwylliant gweithio (8%).

Elusennau gydag incwm yn yr ystod £100-250K oedd yn fwyaf tebygol o gael anawsterau (50% yn erbyn llai na 38% o elusennau incwm is).

6.4 Mathau o gydweithio a achosodd yr anawsterau mwyaf


Y math o weithgareddau cydweithio yr oedd elusennau yn fwyaf tebygol o gael anawsterau â nhw oedd gwneud cais ar y cyd am gontractau (68% wedi cael anawsterau), ceisiadau ar y cyd am gyllid (61%), trafodaethau i sicrhau dim dyblygu (59%) a rhannu gwybodaeth/syniadau mewn ffordd ffurfiol (56%).

Y gweithgareddau cydweithio lle yr oedd anawsterau yn lleiaf tebygol o godi oedd rhannu swyddogaethau cefn swyddfa neu gerbydau (34% wedi cael anawsterau), prynu rhywbeth gyda'i gilydd (37%), codi arian ar y cyd (38%) neu rannu gwybodaeth/syniadau mewn ffordd anffurfiol (39%).

6.5 Camau a gymerwyd i ddatrys anawsterau

Gofynnwyd i'r elusennau hynny a gafodd anawsterau wrth gydweithio pa gamau yr oeddent wedi'u cymryd, os o gwbl, i atal neu ddatrys yr anawsterau hyn. Dengys y casgliadau yn Siart 10.

Siart 10: Camau a gymerwyd i atal neu ddatrys anawsterau



(Sail: Pob un oedd wedi cael anawsterau wrth gydweithio: Heb ei bwysoli 385, Wedi'i bwysoli 373)

Roedd tri chwarter o'r rhai a gafodd anawsterau wrth gydweithio wedi cymryd camau i atal neu ddatrys yr anawsterau hynny. Y camau a gymerwyd yn bennaf oedd:

- Cynnal trafodaethau bwrdd am drefniadau cydweithio (27%).
- Monitro a gwerthuso trefniadau cydweithio yn barhaus (23%).
- Cysylltu â sefydliadau cymorth/cyrrff mantell am gyngor ac arweiniad (21%).
- Cael cynlluniau, cytundebau a chyfrifoldebau ysgrifenedig(19%).

Yr elusennau mwyaf (gydag incwm yn yr ystod £100-250K) oedd yn fwyaf tebygol o weithredu (86%), a'r elusennau lleiaf (gydag incwm hyd at £5K) oedd yn lleiaf tebygol o wneud hynny (63%).

Yr elusennau hynny a gafodd anawsterau cyfreithiol yn ystod eu gweithgarwch cydweithio oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi cymryd camau i'w datrys (93% o'i gymharu â llai na 85% o elusennau eraill). Yn arbennig, roeddent yn fwy tebygol nag eraill i gael cynlluniau a chytundebau ysgrifenedig (48% o'i gymharu â 28% o eraill).


7.0 Sicrhau cydweithio llwyddiannus

- Teimlai'r mwyafrif o elusennau sy'n cydweithio (82%) fod cydweithio wedi bod yn llwyddiannus.
- Nid oedd lefel y llwyddiant canfyddedig yn dibynnu ar faint yr elusen o reidrwydd. Roedd y trefniadau yn fwyaf llwyddiannus pan oedd yr elusen y lleiaf o fewn y bartneriaeth, a phan oedd cytundebau ffurfiol wedi'u paratoi.
- Y prif ffactorau llwyddiant oedd ansawdd y berthynas bresennol rhwng y partneriaid elusen (55%) ac i ba raddau yr oedd nodau, gwerthoedd a chenhadaeth sefydliadol y partneriaid elusen yn cyfateb (52%), a dyma'r ffactorau oedd wedi darbwylo nifer o elusennau i gydweithio yn y lle cyntaf.
- Cafodd ansawdd arweinyddiaeth, cynllunio neu gyfathrebu eu nodi fel prif ffactor yn niffyg llwyddiant partneriaethau (29%), yn ogystal â bod yn un o'r prif anawsterau a gafwyd gan elusennau oedd wedi cydweithio'n aflwyddiannus.
- Dim ond 50% o'r rhai a dywedodd eu bod nhw wedi cael profiadau cydweithio aflwyddiannus oedd yn teimlo eu bod nhw yn y cyfnod cywir yn eu datblygiad sefydliadol ar gyfer eu gweithgarwch cydweithio, o'i gymharu â 84% o'r rhai a ddywedodd eu bod nhw wedi cael profiad cydweithio 'llwyddiannus'.

7.1 Llwyddiant cyffredinol cydweithio

Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus, at ei gilydd, y bu eu profiadau cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn eu barn nhw. Dengys y casgliadau yn Siart 11.

Siart 11: I ba raddau roedd elusennau'n teimlo bod eu profiadau cydweithio wedi llwyddo neu fethu yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.



(Sail: pob elusen oedd wedi cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf: Heb ei bwysoli 1,162, Wedi'i bwysoli 1,134)

At ei gilydd, dywedodd mwy na phedair rhan o bump (82%) eu bod nhw wedi cael profiadau cydweithio eithaf llwyddiannus neu llwyddiannus iawn. Dywedodd 29% eu bod nhw wedi cael profiadau llwyddiannus iawn; dim ond 5% dywedodd na chawsant brofiadau llwyddiannus iawn.

Roedd yr elusennau lleiaf (gydag incwm o lai na £5K) ychydig yn llai tebygol o ddweud eu bod nhw wedi cael profiadau llwyddiannus (75% o'i gymharu â chyfartaledd o 82% ar draws bandiau incwm eraill). Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod yn ansicr ynghylch lefel y llwyddiant; roedd cyfran fwy o'r elusennau lleiaf, o'i gymharu â'r bandiau incwm mwyaf, naill ai heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'ddim yn gwybod' fel ateb.

7.2 Llwyddiant yn ôl math o gydweithio

Nid oedd amrywiaeth mawr yn lefel y llwyddiant yn ôl math o weithgarwch cydweithio, ond gellir nodi'r canlynol:

- Y gweithgareddau cydweithio mwyaf llwyddiannus oedd: digwyddiadau hyfforddi ar y cyd (93% o'r rhain yn llwyddiannus), rhannu syniadau/gwybodaeth mewn ffordd ffurfiol (93%), rhannu staff (92%), rhannu swyddogaethau cefn swyddfa (92%) a thrafodaethau er mwyn osgoi dyblygu gweithgareddau (91%).
- Y gweithgareddau cydweithio oedd yn tueddu i sgorio ychydig yn is o ran llwyddiant oedd gwneud cais ar y cyd am gontractau (77% yn llwyddiannus), ceisiadau ar y cyd am gyllid (84%) a rhannu syniadau/gwybodaeth yn anffurfiol (84%).


Gwelwyd bod llwyddiant cydweithio yn dibynnu i ryw raddau ar faint perthynol y partner elusen; roedd y rhai oedd yn cydweithio â sefydliadau mwy yn tueddu i fod yn fwy tebygol o gael llwyddiant. Dywedodd 38% o'r rhai oedd yn bartner i elusennau mawr iawn, o'i gymharu â 29% o'r rhai oedd yn bartner i elusennau llai, eu bod nhw wedi cydweithio'n 'llwyddiannus iawn'.

Ffactor arall a oedd fel petai wedi cael rhyw ddylanwad ar llwyddiant oedd graddfa ffurfioldeb y trefniadau cydweithio. Roedd y rhai oedd â chytundebau ffurfiol, neu gymysgedd o gytundebau ffurfiol ac anffurfiol, yn cael cyfraddau llwyddiant uwch (38% a 42% yr un) o'i gymharu â'r rhai oedd â threfniadau anffurfiol yn unig (28%).

7.3 Elfennau cydweithio llwyddiannus

Gofynnwyd i elusennau oedd wedi cael profiad o gydweithio i nodi'r prif ffactorau roeddent yn teimlo oedd wedi cyfrannu at llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant eu gweithgareddau cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dengys Siartiau 12a a 12b y prif ffactorau i'r rhai a ddywedodd y cawsant weithgareddau cydweithio llwyddiannus (Siart 12a) ac i'r rhai a gafodd rhai aflwyddiannus (Siart 12b).

Siart 12a: Y prif ffactorau sydd wedi cyfrannu at llwyddiant gweithgareddau cydweithio



(Sail: Elusennau a gafodd brofiadau llwyddiannus: Heb ei bwysoli 957, Wedi'i bwysoli 924)

Y prif ffactorau a nodwyd fel y rhai oedd wedi cyfrannu at lwyddiant oedd ansawdd y berthynas bresennol (55%) ac i ba raddau yr oedd nodau a chenhadaeth sefydliadol yn cyfateb â'u partneriaid elusen eraill (52%). Dilynwyd hyn gan ansawdd arweinyddiaeth, cynllunio a chyfathrebu (35%). Roedd cael mynediad at gymorth ac adnoddau, ee cyllid, yn ffactor llai pwysig.

Nodwyd pwysigrwydd cyfatebiaeth partneriaid cydweithio o ran nodau, gwerthoedd a chenhadaeth sefydliadol gan y rhai a gafodd eu cyfweld yn yr ymgynghoriad ansoddol hefyd.

Astudiaeth Achos: perthynas anffurfiol yn arwain at ddarparu cymorth busnes


Mae elusen fach yn Ne Lloegr yn trefnu gweithgareddau awyr agored i bobl anabl a phobl agored i niwed. Mae'n cael ei rhedeg gan ymddiriedolaeth elusennol, gyda thîm bach o ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr. Mae adeiladau'r elusen fach ar gael i sefydliadau lleol i gynnal digwyddiadau, cyfarfodydd a chynadleddau; mae hyn yn cynhyrchu incwm bach i helpu ariannu gweithgareddau'r elusen. Un o'r sefydliadau oedd yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn rheolaidd oedd elusen fawr sy'n gweithio yn yr un maes gyda throsiant blynyddol o £4 miliwn. Drwy'r cysylltiad hwn roedd cadeiryddion y ddwy elusen wedi cychwyn ar berthynas anffurfiol, a dechreuon nhw drafod eu nodau cyffredin a sut i ddatblygu a chynnal yr elusen lai.

Yn dilyn y sgysiau hyn, roedd yr elusen fwy wedi cynnig drafftio cynllun busnes ar gyfer y sefydliad llai; roedd hyn wedi arwain at gyflwyno sawl cais am gyllid am weithiwr datblygu. Roedd un o'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus, felly penderfynwyd y byddai'r sefydliad mwy yn cyflogi'r gweithiwr datblygu ac yn defnyddio'r arian i dalu cyflog yr unigolyn hwnnw. Roedd hyn yn golygu y gallai'r elusen fach fanteisio ar weithiwr medrus ychwanegol heb y cyfrifoldebau a'r baich gweinyddol o fod yn gyflogwr. Ymhen amser, rhagwelwyd y byddai'r partner mwy yn elwa o'r trefniadau drwy wneud defnydd pellach o adeiladau'r sefydliad llai, gan gynnwys darparu ei gwasanaethau ei hunan.

Roedd y trefniadau cydweithio wedi llwyddo oherwydd sawl ffactor:

- Cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau sefydliad, meithrin perthynas gref a thryloyw.
- Manteision amlwg i fuddiolwyr y ddwy elusen.
- Amcanion clir a chyraeddadwy, wedi'u sefydlu ar ddechrau'r trefniadau cydweithio.
- Cydnabyddiaeth ar ran yr elusen fwy bod buddsoddi yn y partner llai yn amlwg yn cyd-fynd â'i nodau elusennol, ac y byddai'n arwain at lwyddiant yn y tymor hir.

Siart 12b: Y prif ffactorau sydd wedi cyfrannu at ddiffyg llwyddiant gweithgareddau cydweithio



(Sail: Elusennau a gafodd brofiadau aflwyddiannus: Heb ei bwysoli 61, Wedi'i bwysoli 62)

Dywedwyd mai ansawdd arweinyddiaeth, cynllunio neu gyfathrebu oedd y ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n cyfrannu at fethiant trefniadau cydweithio (29%). Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y berthynas bresennol â phartner elusen ac i ba raddau yr oedd nod, gwerthoedd a chenhadaeth sefydliadol y partneriaid yn cyfateb, er yn ffactorau pwysig o hyd, yn gwneud cyfraniad llai arwyddocaol i ddiffyg llwyddiant nag i lwyddiant mentrau cydweithio.

7.4 A yw elusennau'n teimlo eu bod nhw yn y cyfnod cywir yn eu datblygiad sefydliadol i gydweithio

Gofynnwyd i elusennau a oedden nhw'n teimlo eu bod nhw yn y cyfnod cywir yn eu datblygiad sefydliadol ar gyfer gweithgarwch cydweithio.

Er bod un rhan o dair o elusennau wedi cael anawsterau gyda'u gweithgarwch cydweithio, teimlai elusennau yn gyffredinol eu bod nhw yn y cyfnod cywir yn eu datblygiad i gydweithio (74% o bob elusen sy'n cydweithio, a 72% o'r rhai a oedd wedi cael anawsterau).

Fodd bynnag, o'r rhai oedd wedi cael profiad 'aflwyddiannus', dim ond 50% oedd yn teimlo eu bod nhw yn y cyfnod cywir, o'i gymharu â 84% o'r rhai a ddywedodd eu bod nhw wedi cael profiad cydweithio 'llwyddiannus'.


8.0 Gwybodaeth, cymorth a chyngor ac agweddau tuag at gydweithio

- Roedd un rhan o dair o elusennau sy'n cydweithio (35%) wedi ceisio gwybodaeth, cyngor neu gymorth am gydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; y ffynonellau gwybodaeth mwyaf poblogaidd ar gyfer yr elusennau hyn oedd: seilwaith lleol/sefydliadau cymorth (36%); elusennau eraill (32%); y Comisiwn Elusennau (30%) a chyrrff mantell/cymorth cenedlaethol (29%); roedd yr wybodaeth a'r cyngor a geisiwyd yn ymwneud yn bennaf ag agweddau cyfreithiol, cymorth ariannu, rheoli newid sefydliadol a chynllunio a pharatoi.
- Nid oedd cyfran sylweddol o'r elusennau wedi ceisio cyngor neu gymorth i helpu datrys yr anawsterau penodol a gawsant wrth gydweithio (67%).
- Teimlai 65% o elusennau sy'n cydweithio a 35% o elusennau oedd heb gydweithio y byddai angen cymorth arnynt er mwyn gwella neu gychwyn cydweithio.

8.1 Cymorth a gafwyd

Gofynnwyd i bob elusen pa wybodaeth, cyngor neu gymorth ar gydweithio, os o gwbl, yr oeddent wedi ei geisio yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Dengys y casgliadau yn Siart 13.

Siart 13: Mathau o wybodaeth, cyngor neu gymorth a geisiwyd ar faterion cydweithio



(Sail: Pob ymatebwr: 2,515; Elusennau sy'n cydweithio: Heb ei bwysoli 1,162, Wedi'i bwysoli 1,134; Elusennau sydd heb gydweithio: Heb ei bwysoli 1,332, Wedi'i bwysoli 1,360)

At ei gilydd, dim ond tua un rhan o bump o'r elusennau a arolygwyd (22%) oedd wedi gofyn am wybodaeth, cyngor neu gymorth ar gyfer cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yn ôl y disgwyl, roedd y rhai oedd wedi cydweithio yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny (35%), o'i gymharu â dim ond 12% o'r rhai oedd heb gydweithio dros yr un cyfnod.

Elusennau mwy (gydag incwm yn yr ystod £100-250K) oedd yn fwyaf tebygol o geisio gwybodaeth neu gyngor (45%); mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o fod wedi cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yr elusennau lleiaf (gydag incwm hyd at £5K) oedd yn lleiaf tebygol o fod wedi ceisio gwybodaeth neu gyngor (14%).

Roedd elusennau gyda phrofiad o gydweithio wedi cael mynediad at gymorth yn bennaf ar agweddau cyfreithiol/rheoleiddio (16% o elusennau sy'n cydweithio) a materion cyllid (12%).

Roedd elusennau yn fwy tebygol o geisio cyngor os oeddent yn gwneud cais ar y cyd am gontractau (roedd 62% o elusennau sy'n cydweithio fel hyn wedi ceisio cyngor), ceisiadau ar y cyd am gyllid (59%), neu reoli trafodaethau er mwyn osgoi dyblygu gweithgareddau (60%); dyma'r mathau o weithgareddau lle yr oedd elusennau hefyd yn fwyaf tebygol o gael anawsterau.

8.2 Cymorth a gafwyd gan y rhai oedd yn cael anawsterau


Os yw'r math o gymorth a gafwyd yn cael ei ddadansoddi yn ôl y mathau o anawsterau yr oedd elusennau wedi sôn amdanynt yn ystod cydweithio, yna gellir gwneud yr arsylwadau canlynol:

- **Nid** oedd cyfran sylweddol o'r elusennau wedi ceisio cyngor neu gymorth i helpu i ddatrys yr anawsterau penodol a gawsant wrth gydweithio (67%).
- O'r 4% o elusennau sy'n cydweithio a ddywedodd eu bod nhw wedi cael cymhlethdodau cyfreithiol gyda'u gweithgarwch cydweithio, roedd 75% wedi ceisio cyngor ar faterion cyfreithiol.
- O'r rhai oedd wedi cael anhawster gydag arweinyddiaeth, cynllunio neu gyfathrebu, roedd 23% wedi ceisio cyngor ar gynllunio neu baratoi, 23% ar reoli newid sefydliadol ac roedd 7% wedi ceisio cyngor ar sut i ddelio â 'gwrthdaro diwylliannol'.
- O'r rhai oedd yn cael gwahaniaethau diwylliannol neu wrthdaro personoliaeth, dim ond 8% oedd wedi ceisio cyngor ar sut i ddelio â'r broblem.

8.3 Ffynonellau cymorth

Gofynnwyd i'r elusennau hynny oedd wedi ceisio gwybodaeth a chyngor i nodi'r sefydliad neu'r math o sefydliad yr oeddent wedi ceisio'r cymorth hwnnw ganddynt; mae'r casgliadau i'w gweld yn Siart 14.

Siart 14: Mathau o sefydliadau y ceisiwyd cyngor ganddynt



(Seiliau: Pob ymatebwr a geisiodd wybodaeth¹¹: Heb ei bwysoli 587, Wedi'i bwysoli 557; Elusennau sy'n cydweithio: Heb ei bwysoli 421, Wedi'i bwysoli 396; Elusennau sydd heb gydweithio: Heb ei bwysoli 163, Wedi'i bwysoli 158)

Dengys y casgliadau mai'r Comisiwn Elusennau a seilwaith/sefydliad cymorth lleol oedd y ffynonellau gwybodaeth mwyaf poblogaidd yn gyffredinol am wybodaeth, cyngor neu gymorth (31% a 29% yr un).


Fodd bynnag, roedd elusennau a gafodd brofiad o gydweithio yn fwyaf tebygol o fod wedi ceisio cyngor gan seilwaith/sefydliadau cymorth (36%), er bod cyngor gan elusennau eraill (32%), y Comisiwn Elusennau (30%) a chyrrff mantell/cymorth cenedlaethol (29%) hefyd yn ffynonellau poblogaidd i'r elusennau hyn.

¹¹ Y sail oedd pob un oedd a ddywedodd eu bod nhw wedi ceisio cyngor (yn ôl y data yn Siart 13), ond aeth 8% o'r ymatebwyr hyn ymlaen i ddweud nad oeddent yn ceisio cyngor (yn ôl y data yn Siart 14).

8.4 Anghenion cymorth

Gofynnwyd i'r holl elusennau a arolygwyd pa gymorth y teimlent y byddai ei angen arnynt er mwyn gwella eu gweithgareddau cydweithio neu gychwyn cydweithio. Dangosir y casgliadau yn Siart 15.

Siart 15: Anghenion yn y dyfodol er mwyn gwella, neu gychwyn cydweithio



(Seiliau: Pob ymatebwr: 2,515; Elusennau sy'n cydweithio: Heb ei bwysoli 1,162, Wedi'i bwysoli 1,134; Elusennau sydd heb gydweithio: Heb ei bwysoli 1,332, Wedi'i bwysoli 1,360)

Roedd hanner yr elusennau a ymatebodd wedi mynegi rhyw fath o angen am gymorth, gan ffurfio 69% o'r elusennau sy'n cydweithio a 34% o'r elusennau sydd heb gydweithio.

Roedd y mathau o anghenion a fynegwyd yn debyg ar gyfer elusennau sy'n cydweithio ac sydd heb gydweithio; roedd ymatebwyr am gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn bennaf (28%), neu fynediad at gyllid (25%), ac roedd yr olaf yn angen llawer mwy arwyddocaol i'r elusennau hynny oedd wedi ymgymryd â gweithgarwch cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (39%).

Roedd yr elusennau mwyaf yn fwyaf tebygol o nodi anghenion (68%) ac yn lleiaf tebygol o ddweud nad oedd unrhyw ddiddordeb ganddynt mewn cydweithio yn y dyfodol (19%).

Dywedodd 54% o'r elusennau oedd heb unrhyw brofiad o gydweithio nad oedd diddordeb ganddynt mewn cydweithio yn y dyfodol.

8.5 Gweithredu pellach y mae ei angen i gefnogi cydweithio

Yn ystod yr ymgynghoriad ansoddol cychwynnol, roedd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn bod eisoes llawer iawn o wybodaeth ar gael ar gydweithio i elusennau. Fodd bynnag, teimlid bod gwybodaeth o'r fath yn darparu cymorth generig yn hytrach na chymorth wedi'i deilwra ar sut i fynd ati i gydweithio.

"Gallwch chi ddysgu'r theori ond mae gweithredu arno'n ymarferol yn wahanol iawn, dydy hi byth mor hawdd ac rydych chi'n meddwl." - Unigolyn a gafodd ei gyfweld

Er mwyn datrys hyn, roedd y rhai a gawsant eu cyfweld yn awgrymu bod angen cymorth mwy hygyrch, ymarferol. Hefyd teimlid mai sefydliadau seilwaith lleol oedd yn y sefyllfa orau i helpu i greu cyfleoedd i elusennau bach rwydweithio, eu helpu i adnabod partneriaid posibl a hybu manteision cydweithio. Yn ail, teimlid y gallai sefydliadau seilwaith lleol helpu elusennau sy'n cydweithio i ddatrys unrhyw broblemau diwylliannol neu weithredol arwyddocaol. Dyma'r math o gymorth ymarferol sy'n rhaid talu amdano ar hyn o bryd, cost y mae'r elusennau lleiaf yn llai tebygol o allu ei fforddio.

"Does dim cymorth ar gael i elusennau bach, gallwch gael cymorth os oes gennych chi'r arian i dalu amdano fe, fel hyfforddiant a phopeth arall, ond os nad oes gennych chi unrhyw gyllid rydych chi...ar eich pen eich hunan." - Unigolyn a gafodd ei gyfweld.

8.6 Proffil o elusennau sydd heb gydweithio a allai ystyried cydweithio yn y dyfodol

Cynhaliwyd dadansoddiad segmentu ar ddata'r arolwg i gael proffil o'r elusennau hynny sydd heb gydweithio a fyddai efallai'n ystyried cydweithio yn y dyfodol pe byddai anghenion cymorth penodol yn cael eu bodloni - mae'r dybiaeth hon yn deillio o'r ffaith bod yr elusennau hyn wedi adnabod anghenion cymorth yn gadarnhaol yn hytrach na dweud nad oedd diddordeb ganddynt mewn cydweithio.

Mae'r casgliadau o'r dadansoddiad segmentu yn dangos bod yr elusennau hyn yn fwyaf tebygol o fod yn:

- elusennau gydag incwm yn yr ystod £25-100K;
- yr elusennau ieuaf;
- elusennau yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Swydd Gaerefrog; a'r
- elusennau sy'n ymwneud ag is-sectorau neu feysydd gweithgaredd sy'n debyg i'r rhai y mae'r mwyafrif o elusennau sy'n cydweithio yn ymgymryd â nhw, h.y. datblygiad economaidd/cymunedol a chyflogaeth, cymorth dramor, chwaraeon/hamdden, y celfyddydau/diwylliant a'r amgylchedd/cadwraeth/treftadaeth.


Gweler Atodiad Ch i gael gwybodaeth bellach am y dadansoddiad segmentu.

8.7 Agweddau cyffredinol tuag at gydweithio

- Roedd y mwyafrif o elusennau sy'n cydweithio wedi ymateb yn gadarnhaol i'r syniad o gydweithio; roedd 77% yn cefnogi'r syniad ac roedd 58% ohonynt yn teimlo ei fod yn gwneud synnwyr i'w helusen nhw.
- Nid yw'n syndod felly bod elusennau sydd heb gydweithio yn llai brwdfrydig; dim ond 16% oedd yn cefnogi'r syniad a dim ond 8% oedd yn teimlo ei fod yn gwneud synnwyr i'w helusen nhw.

Gofynnwyd i bob elusen a ymatebodd a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud ag agwedd tuag at gydweithio. Dengys Siart 16 y casgliadau ar gyfer pob ymatebwr.

Siart 16: Agweddau cyffredinol tuag at gydweithio



Sail: Cyfanswm (Pob ymatebwr): 2,515

Mewn ymateb i'r rhan fwyaf o'r datganiadau uchod, dywedodd tua chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiadau, a dywedodd 15% i 20% pellach naill ai nad oeddent yn gwybod neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn.

Fodd bynnag, roedd 43% o elusennau yn cefnogi'r syniad o gydweithio ag elusennau eraill,¹² roedd 30% yn cytuno bod cydweithio yn gwneud synnwyr i'w helusen nhw ac roedd 28% yn teimlo bod y manteision sy'n deillio o gydweithio yn werth yr amser a'r adnoddau a fuddsoddir.

Ar y llaw arall, dim ond cyfran fach o ymatebwyr (13%) oedd yn ystyried cydweithio yn flaenoriaeth a dim ond un rhan o bump (19%) oedd yn cytuno bod cydweithio yn ffordd o ymdopi â'r dirywiad economaidd.

Yn gyffredinol, roedd yr elusennau mwyaf (gydag incwm yn yr ystod £100-250K), oedd wedi cydweithio mwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf nag elusennau llai, yn fwy cadarnhaol at ei gilydd ynghylch cydweithio, gyda'r elusennau lleiaf (incwm o lai na £5K) yn gadarnhaol fan lleiaf.

12 Gall y cyfran cytuno net ('Cytuno'n gryf' plws 'Tueddu i gytuno') amrywio weithiau gan 1% o swm pob un oherwydd talgrynnu'r canrannau gwahanol.

Casgliadau o'r elusennau a oedd wedi cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

Roedd yr elusennau a gafodd brofiad o gydweithio yn fwy cadarnhaol amdano. Roedd tri chwarter o'r elusennau hynny oedd wedi cydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (77%) yn cefnogi'r syniad o gydweithio; teimlai dros hanner (58%) fod cydweithio yn gwneud synnwyr i'w helusen nhw, a theimlai 56% bod y manteision yn werth yr amser a'r adnoddau a fuddsoddir.

Fodd bynnag, dim ond un rhan o dair (34%) oedd yn ystyried cydweithio fel ffordd o ymdopi â'r dirywiad economaidd (fel y gwelsom eisoes, nid ffactorau ariannol oedd y prif gymhellion dros gydweithio).

Teimlai ychydig o dan un rhan o dair (32%) bod angen cymorth arnynt er mwyn cydweithio'n effeithiol.

Casgliadau o'r elusennau oedd heb gydweithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

Roedd y rhai oedd heb gydweithio yn tueddu i beidio â gweld unrhyw fanteision posibl. Roeddent yn fwy tebygol o anghytuno â'r datganiadau, neu'n teimlo nad oeddent yn gwybod neu nid oeddent mewn sefyllfa i gytuno neu anghytuno. Er enghraifft, dim ond 16% oedd yn cefnogi'r syniad o gydweithio a dim ond 8% oedd yn teimlo bod cydweithio yn gwneud synnwyr i'w helusen nhw.

Atodiad A - Methodoleg

Cafodd y gwaith ymchwil hwn ei gyflawni gan y cwmni ymchwil GfK NOP mewn dau gam: ymgynghoriad ansoddol cychwynnol, wedi'i ddilyn gan y prif arolwg meintiol.

Cam 1: Ymgynghoriad ansoddol

Nod yr ymgynghoriad hwn oedd cynnal asesiad cychwynnol o'r problemau sy'n wynebu elusennau bach o ran cydweithio. Fe'i cynhaliwyd cyn y cam ansoddol a chafodd ei lywio gan ddiffiniad yr ymchwil o 'elusen fach' a 'chydweithio', yn ogystal â datblygu holiadur yr arolwg.

Roedd yr ymgynghoriad ansoddol yn cynnwys 10 cyfweiliad ffôn unigol. Cawsant eu rhannu fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd saith cyfweiliad ag arbenigwyr o'r sector elusennol oedd wedi cael profiad o weithio gydag elusennau bach a'u cefnogi.
- Cynhaliwyd tri chyfweiliad gydag elusennau 'rheng-flaen':
 - Un cyfweiliad gydag elusen fwy, gydag incwm rhwng £1,000,000 a £2,000,000.
 - Dau gyfweiliad gydag elusennau bach, gydag incwm rhwng £5,000 a £250,000.

Darparwyd manylion cyswllt yr elusen fawr a'r arbenigwyr sector gan y Comisiwn Elusennau; roeddent wedi cymryd rhan yn wirfoddol. Cafodd yr elusennau bach eu recriwtio o ffrâm sampl a ddarparwyd gan y Comisiwn ar ôl gael eu sgrinio yn gyntaf i gadarnhau bod profiad o gydweithio ganddynt. Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng Ionawr a Chwefror 2010.

Diffinio 'elusen fach' a 'chydweithio'

Fel yr esbonnir uchod, roedd yr ymgynghoriad cam un yn archwilio dealltwriaeth a diffiniadau o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'elusen fach' gan geisio barn am yr hyn a olygir wrth y term 'cydweithio'.

Diffinio elusen fach

Her gychwynnol oedd yn wynebu'r ymchwil oedd llunio diffiniad priodol ar gyfer 'elusen fach'. Er mai incwm blynyddol yw'r dangosydd mwyaf amlwg, roedd y rheiny oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ansoddol wedi awgrymu amryw o ffyrdd eraill o nodweddu elusen fel naill ai elusen 'fach, ganolig neu fawr'. Roedd y nodweddion hyn yn cynnwys:

- **Gwerth cyfalaf/asedau sefydlog**
Awgrymwyd bod elusennau llai yn llai tebygol o gael portffolio cryf o asedau. Fodd bynnag, roedd gan yr elusennau bach oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol incwm blynyddol isel iawn ond roeddent yn berchen ar eiddo neu dir, neu'n dal eiddo neu dir mewn ymddiriedolaeth sy'n cynrychioli ased arwyddocaol; mae hyn yn arbennig o gyffredin ymysg sefydliadau a fu'n gweithredu ers amser maith. Er enghraifft, gall cymdeithasau pentref berchen ar y tir o amgylch neuadd bentref neu ei ddal ar ymddiriedolaeth.
- **Cwmpas**
Awgrymodd rhai cyfranogwyr fod elusennau bach yn tueddu i wasanaethu nifer cyfyngedig o fuddiolwyr. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau bach yn cyrraedd nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth, er enghraifft trwy wasanaethau gwybodaeth seiliedig ar y rhyngwyd.
- **Nifer y gweithwyr cyflogedig**
Awgrymwyd bod y gallu i gyflogi staff cyflogedig yn arwydd glir o allu sefydliad, ac felly ei faint. Fodd bynnag, y broblem gyda dibynnu ar nifer y gweithwyr fel diffiniad penodol yw nad oes gan nifer fawr o elusennau bach unrhyw staff cyflogedig o gwbl. Hefyd awgrymwyd bod y gallu i gyflogi staff yn ffordd anuniongyrchol yn unig o asesu incwm.

Diffiniad o 'elusen fach' at ddiben yr ymchwil hwn

Wedi ystyried hyn, er bod modd cyfuno'r ffactorau uchod i ddarparu rhai nodweddion cyffredinol ar gyfer elusennau bach, y teimlad oedd na fyddent wedi darparu haenau clir o'r sector at ddibenion yr astudiaeth hon. Teimlid bod diffinio union nodweddion arbennig elusen fach yn wrthrychol ac yn anodd.

Un o fanteision defnyddio incwm fel prif ddiffiniad oedd ei gysylltiad â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddio elusennau. Cydnabuwyd wrth i incwm elusen godi, felly hefyd mae ei rhwymedigaethau adrodd i'r Comisiwn Elusennau. Y lefel atebolrwydd gynyddol hon oedd y nodwedd ddiamedeuol allweddol rhwng elusennau bach a mawr. I gael dadansoddiad llawn o'r trothwyon incwm adrodd gweler *CC15b - Adroddiadau a Chyfrifon Elusennau: Yr hanfodion*: www.comisiwnelusennau.gov.uk/publications/cc15b.aspx.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ansoddol, dewiswyd incwm fel y brif nodwedd sy'n diffinio elusen fach ar gyfer yr astudiaeth hon. Penderfynwyd y byddai'r diffiniad yn cynnwys yr holl elusennau cofrestredig gydag incwm o £250,000 a llai. Dewiswyd trothwy gweddol uchel er mwyn caniatáu ar gyfer mwy o gymhariaeth ar draws bandiau incwm ac archwilio'r berthynas rhwng cydweithio a thwf sefydliadol (os oedd).

Diffiniad o 'gydweithio at ddiben yr ymchwil hwn

Er bod y term 'cydweithio' yn un cyffredin ymysg arbenigwyr a gafodd eu cyfweld, nid oedd elusennau bach oedd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn ei ystyried yn ddisgrifiad cyffredinol o'r ystod lawn o weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw gydag elusennau eraill. I'r elusennau bach hyn, roedd 'cydweithio' yn awgrymu cydweithio ffurfiol, hirdymor wedi'i anelu at gyflawni targed neu ganlyniad wedi'i ddiffinio ymlaen llaw. Teimlid ei fod yn weithgaredd i elusennau mwy ac nid rhywbeth oedd yn berthnasol iddyn nhw.

Fodd bynnag, roedd y ddwy elusen fach oedd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ansoddol yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau cydweithio, megis:

- cynnig lleoliadau i elusennau lleol;
- rhannu arbenigedd/profiad o redeg elusen;
- benthycu offer megis cadeiriau a bordydd; a
- gwirfoddoli i helpu gyda digwyddiadau sy'n cael eu llwyfannu gan elusennau eraill.

Yn hytrach na chydweithio, roedd termau fel 'benthycu', 'rhannu', 'rhoi benthycu', 'rhoi', 'cefnogi' a 'chydweithredu' yn tueddu i gael eu defnyddio gan yr elusennau bach hyn i ddisgrifio gweithgareddau o'r fath. Yn fwy arwyddocaol, roedd yr achosion o 'fenthycu' a 'rhannu' fel petaent yn ddigwyddiad cyffredin ymysg elusennau bach, gan awgrymu y gallai elusennau bach ddiystyru'n hawdd y perthnasoedd cydweithio lefel isel hyn oherwydd eu bod yn rhan o'u harferion bob dydd.

Felly gall y term 'cydweithio' gyfeirio at amrywiaeth o weithgareddau. Oherwydd hynny, roedd angen eglurder i sicrhau bod elusennau bach yn rhoi digon o sylw i'r gweithgareddau lefel isel yr oeddent yn ymgymryd â nhw gydag elusennau eraill. At ddibenion yr astudiaeth ymchwil hon, roedd y diffiniad o gydweithio fel a ganlyn:

"Yr hyn a olygwn wrth 'gydweithio' yn yr arolwg hwn yw gweithio ar y cyd ag elusen arall neu rannu gwybodaeth neu adnoddau ag elusen arall, boed mewn ffordd ffurfiol (ee, defnyddio contract/cytundeb lefel gwasanaeth) neu mewn ffordd anffurfiol (ee, dim cytundeb ysgrifenedig neu heb amlinellu'r telerau ymlaen llaw)."

Dewiswyd diffiniad eang yn fwriadol oherwydd bod y Comisiwn Elusennau am ddal yr ystod lawn o wahanol ffyrdd o gydweithio, gan gynnwys gweithgareddau anffurfiol megis rhannu syniadau a gwybodaeth. Mae'r diffiniad hwn ychydig yn ehangach na diffiniad swyddogol y Comisiwn a nodwyd yn y Cyflwyniad, sydd heb gynnwys rhannu adnoddau.

Cam 2: Arolwg post meintiol

Holiadur

Roedd y casgliadau o'r ymgynghoriad ansoddol wedi llywio datblygu holiadur yr arolwg. Cafodd yr holiadur hwn ei dreialu ar raddfa fach drwy'r e-bost; roedd deuddeg elusen wedi ymateb. Gwnaethpwyd newidiadau bach i'r holiadur o ganlyniad i'w hadborth.

Roedd yr holiadur terfynol yn cynnwys cyfanswm o 27 o gwestiynau, ac mae copi i'w weld yn Atodiad B.

Samplu a dull

Cafodd y dull arolwg meintiol ei ddewis er mwyn cael data oedd yn ddibynadwy yn ystadegol y gellid eu hallosod i'r boblogaeth ehangach o elusennau bach (y rhai gydag incwm blynyddol o ddim mwy na £250,000). Y nod oedd cael o leiaf 2,500 o ymatebion, gan ganiatáu ar gyfer uchafswm lled y gwall o +/-2%. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, cafodd holiaduron eu postio i 10,524 o elusennau, ac roedd GfK NOP yn rhagweld cyfradd ymateb o 25% o leiaf. Seiliwyd y ffrâm samplu ar gyfrannau poblogaeth yn ôl incwm elusen ac ardal. Fodd bynnag, roedd y band incwm £0-5K heb ei gynrychioli'n llawn yn fwriadol, a chafodd eraill eu gwneud yn fwy, er mwyn anelu at gael o leiaf 400 o holiaduron wedi'u dychwelyd ym mhob un o'r pedwar band incwm cyntaf ac o leiaf 200 yn y band incwm £100-250K - gweler y tabl isod.

	Proffil poblogaeth	Proffil y ffrâm samplu	Niferoedd y ffrâm samplu
£0-5K ¹³	37%	30%	3,156
£5-10K	17%	19%	1,983
£10-25K	17%	19%	2,009
£25-100K	20%	22%	2,326
£100-250K	8%	10%	1,050
Cyfanswm			10,524

Hefyd, ychwanegwyd at y niferoedd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr a Chymru ryw ychydig, ac roedd De Lloegr heb ei gynrychioli'n llawn er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gael o leiaf 100 o holiaduron wedi'u dychwelyd o bob ardal - gweler y tabl isod.

	Proffil poblogaeth	Proffil y ffrâm samplu	Niferoedd y ffrâm samplu
Gogledd-ddwyrain Lloegr	3%	5%	511
Gogledd-orllewin Lloegr	9%	9%	992
Swydd Gaerefrog & Humber	7%	7%	746
Dwyrain Canolbarth Lloegr	7%	6%	681
Gorllewin Canolbarth Lloegr	10%	11%	1,112
Dwyrain Lloegr	12%	12%	1,232
Llundain	15%	14%	1,512
De-ddwyrain Lloegr	18%	17%	1,833
De-orllewin Lloegr	13%	12%	1,311
Cymru	5%	6%	594
Cyfanswm			10,524

13 Ysgrifennwyd y bandiau incwm hyn yn y fformat hwn trwy'r ddogfen hon at ddibenion symleiddio. Fodd bynnag, mae'r union fandiau y maent yn eu cynrychioli fel a ganlyn: '£0-5K' = £0 - 5,000, '£5-10K' = £5,001-10,000, '£10-25K' = £10,001 - 25,000, '£25-100K' = £25,001-100,000, '£100-250K' = £100,001-250,000.

Hefyd gwnaethpwyd yn siŵr bod y ffrâm samplu yn cynnwys o leiaf 500 o elusennau o fewn pob un o'r categorïau gweithgarwch elusen posibl - gweler y rhestr isod:

- Dibenion elusennol cyffredinol
- Addysg/hyfforddiant
- Meddygol/iechyd/salwch
- Anabledd
- Lleddfu tlodi
- Cymorth dramor/cymorth newyn
- Llety/tai
- Gweithgareddau crefyddol
- Celfyddydau/diwylliant
- Chwaraeon/adloniant
- Anifeiliaid
- Amgylchedd/cadwraeth/treftadaeth
- Datblygiad economaidd/cymunedol/cyflogaeth

Cafodd yr holiaduron eu cyfeirio at Ohebydd y Comisiwn Elusennau pob elusen er mwyn iddynt eu hanfon at bwy bynnag y teimlant oedd yn fwyaf priodol ar gyfer cwblhau'r holiadur. Penderfynwyd ar fethodoleg bost gan fod cronfa ddata'r Comisiwn Elusennau yn dal cyfran uwch o gyfeiriadau post ar gyfer Gohebwy'r yr Elusennau na chyfeiriadau e-bost. Gwnaethpwyd y gwaith maes rhwng 22 Mawrth a 19 Ebrill 2010. Wythnos cyn gorffen y gwaith maes, postiwyd 2,000 o lythyron atgoffa i'r rhai oedd heb ymateb, a phostiwyd dros 3,000 o nodiadau atgoffa drwy'r e-bost.

Dadansoddi ac adrodd

Pwysolwyd y data i adlewyrchu poblogaeth elusennau bach yn ôl incwm ac ardal. Dadansoddwyd y data gan yr holl wybodaeth broffilio (naill ai'n bresennol yn y sampl neu wedi'u casglu o fewn yr holiadur arolwg), a gwnaethpwyd dadansoddiad segmentu hefyd ar y data. Cynhaliwyd y dadansoddiad segmentu er mwyn cael hyd i glystyrau homogenaidd o elusennau sydd ag agweddau a/neu ymddygiad tebyg o ran cydweithio - i gael manylion pellach am y dadansoddiad segmentu, gweler Atodiad Ch.

Atodiad B - Proffil o'r ymatebwyr

Derbyniwyd cyfanswm o 2,515 o ymatebion, yn cynrychioli cyfradd ymateb 24%. Mae'r tablau isod yn dangos yr ymatebion a gafwyd yn ôl incwm ac ardal, ynghyd â'r sylfeini yn dilyn pwysoli'r data i'r proffiliau poblogaeth.

	Ymatebion a gafwyd	Seiliau wedi'u pwysoli
£0-5K	757	934
£5-10K	471	426
£10-25K	490	438
£25-100K	545	503
£100-250K	252	214
Cyfanswm	2,515	2,515

	Ymatebion a gafwyd	Seiliau wedi'u pwysoli
Gogledd-ddwyrain Lloegr	140	80
Gogledd-orllewin Lloegr	221	241
Swydd Gaerefrog & Humber	182	189
Dwyrain Canolbarth Lloegr	168	166
Gorllewin Canolbarth Lloegr	297	257
Dwyrain Lloegr	306	308
Llundain	257	370
De-ddwyrain Lloegr	451	448
De-orllewin Lloegr	343	322
Cymru	150	133
Cyfanswm	2,515	2,515

Mae ragor o wybodaeth am broffiliau ymatebwyr i'w gweld isod. Mae'r tablau isod yn dangos proffiliau'r set data heb ei bwysoli (Heb ei bwysoli) ac wedi'i bwysoli (Wedi'i bwysoli) (2,515) yn ôl:

- Sample (Charity Commission database) information:
 - Incwm yn erbyn ardal
 - Gweithgareddau'r elusen
 - Ardal gweithredu ddaeryddol

- Ymatebion i'r holiadur:
 - C1. Oedran yr elusen (am faint y bu'n gweithredu)
 - C2. Ffynonellau incwm (unrhyw reng neu ffynhonnell a nodwyd mewn ffordd arall)
 - C3. Dadansoddiad o gyfanswm staff yn ôl statws 'cyflogedig' neu 'wirfoddol'
 - C3. dadansoddiad o gyfanswm staff
 - C4. Rhan o ffederasiwn neu beidio
 - C5a. Gweithio ar lefel leol neu beidio
 - C5b. Gweithio ar draws ardal drefol a/neu wledig

Incwm yn erbyn lleoliad yr elusen	Cyfanswm	Gogledd-ddwyrain Lloegr	Gogledd-orllewin Lloegr	Swydd Gaerefrog & Humber	Dwyrain Canolbarth Lloegr	Gorllewin Canolbarth Lloegr	Dwyrain Lloegr	Llundain	De-ddwyrain Lloegr	De-orllewin Lloegr	Cymru
Sail Heb ei Bwysoli	2515	140	221	182	168	297	306	257	451	343	150
Sail Wedi'i Bwysoli	2515	80	241	189	166	257	308	370	448	322	133
0-5K	934	30	92	72	68	101	123	114	153	125	56
	37%	37%	38%	38%	41%	39%	40%	31%	34%	39%	42%
5-10K	426	13	41	33	30	45	54	53	75	57	25
	17%	17%	17%	17%	18%	18%	17%	14%	17%	18%	19%
10-25K	438	13	40	32	28	45	53	63	86	57	22
	17%	16%	17%	17%	17%	17%	17%	17%	19%	18%	16%
25-100K	503	16	46	36	29	46	58	90	98	62	22
	20%	20%	19%	19%	17%	18%	19%	24%	22%	19%	16%
100-250K	214	8	22	16	11	20	20	49	37	22	9
	9%	10%	9%	9%	7%	8%	7%	13%	8%	7%	6%

Ardal Gweithredu ddaearyddol	Heb ei bwysoli	%	Wedi'i bwysoli	%
Sail	2515		2515	
Lleol/rhanbarthol a'r tu allan i'r DU/GI	23	1	23	1
Lleol/rhanbarthol yn unig	2095	83	2073	82
Lleol/rhanbarthol a'r tu allan i'r DU/GI	70	3	75	3
Cenedlaethol yn unig	276	11	295	12
Y tu allan i'r DU/GI yn unig	51		50	

Gweithgareddau'r elusen	Heb ei bwysoli	%	Wedi'i bwysoli	%
Sail	2515		2515	
Dibenion Elusennol Cyffredinol	744	30	738	29
Addysg/Hyfforddiant	1154	46	1138	45
Meddygol/Iechyd/Salwch	370	15	370	15
Anabledd	370	15	360	14
Lleddfu Tlodi	394	16	404	16
Cymorth dramor/Cymorth newyn	136	5	136	5
Llety/Tai	125	5	125	5
Gweithgareddau crefyddol	398	16	400	16
Celfyddydau/diwylliant	478	19	473	19
Chwaraeon/adloniant	582	23	556	22
Anifeiliaid	130	5	125	5
Amgylchedd/Cadwraeth/Treftadaeth	366	15	362	14
Datblygiad Economaidd Cymunedol/Cyflogaeth	310	12	298	12
Dibenion elusennol eraill	76	3	76	3

C1. Oedran yr elusen	Heb ei bwysoli	%	Wedi'i bwysoli	%
Sail	2515		2515	
Llai na blwyddyn	12	*	12	*
Blwyddyn i lai na 5 mlynedd	198	8	193	8
5 mlynedd i lai na 10 mlynedd	298	12	295	12
10 mlynedd i lai nag 20 mlynedd	524	21	523	21
20 mlynedd neu hwy	1455	58	1464	58
Dim ateb	28	1	29	1

* dynodi canrannau llai na 0.5%

C2. Ffynonellau incwm	Heb ei bwysoli	%	Wedi'i bwysoli	%
Sail	2515		2515	
Rhoddion (gan roddwyr byw)	1219	48	1207	48
Cymynroddion	390	16	399	16
Grantiau gan sefydliadau/ymddiriedolaethau	745	30	701	28
Cyllid gan gwmnïau preifat	182	7	180	7
Grant(iau)	468	19	435	17
